# Canllaw i Ymgeiswyr

## Pwrpas ac Trosolwg

- Mae'r gwobrau hyn yn **ysgoloriaethau sy'n seiliedig ar arholiadau**, ar gael i ymgeiswyr israddedig, gan roi cyfle iddynt ennill **gwobr ariannol** a/neu gynnig **diamod.**
- Mae'r gwobrau hyn yn ddewisol — nid yw sefyll yr arholiadau'n disodli'ch cynnig gwreiddiol; os na fyddwch yn llwyddiannus, bydd eich cynnig gwreiddiol yn aros yn ddilys.
- *Sylwch nad yw ymgeiswyr Gwyddor Filfeddygol, Nyrsio Milfeddygol a Nyrsio yn gymwys i sefyll yr arholiadau.* Os ydych wedi gwneud cais i astudio un o'r cyrsiau uchod ac eisioes wedi cwblhau'r ffurflen gais, cysylltwch gyda ysgoloriaethau@aber.ac.uk fel y gallwn drafod eich opsiynau.

## Gwobrau ar Gael

| Math o Wobr | **Gwobr ariannol** | **Gwerth** | **Hyd / Blwyddyn(au)** | **Buddion Ychwanegol** | **Nifer ar gael** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgoloriaeth Prifysgol | Ie | £1,000 | Am bob blwyddyn o'r cwrs | Yn cynnwys cynnig diamod hefyd | Mae hyd at 50 o Ysgoloriaethau Prifysgol ar gael bob blwyddyn i'r ymgeiswyr â'r marciau uchaf. |
| Gwobr Teilyngdod | Ie | £1,000 | Blwyddyn gyntaf yn unig | Yn cynnwys cynnig diamod hefyd | Mae hyd at 100 o Wobrau Teilyngdod ar gael bob blwyddyn i'r ymgeiswyr â'r marciau nesaf uchaf. |
| Cynnig Diamod | Na | Dim gwerth ariannol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | N/A - awarded to strong performing candidates who miss out on securing a financial award |

## Amserlen a Dyddiadau Pwysig

- **Dyddiad yr arholiad** ar gyfer mynediad 2026: **Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2026**
- **Dyddiad cau'r cais**: erbyn **12:00pm (canol dydd amser y DU), Dydd Gwener 23 Ionawr 2026**
- Cyhoeddir canlyniadau fel arfer **4–6 wythnos ar ôl yr arholiadau.**

## Manylion a Strwythur yr Arholiad

- Cynhelir yr arholiadau yn eich ysgol neu goleg. Eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â'ch Swyddog Arholiadau i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r trefniadau.
- Bydd eich swyddogion arholiadau'n darparu copi papur o'ch arholiad i chi.
- Byddwch yn sefyll **dau bapur arholiad** (1.5 awr yr un) ar **yr un diwrnod.**
- Mae'r arholiadau'n cael eu cynnal **ar-lein**; bydd angen cyfrifiadur (gyda Word/porwr) a mynediad i'r rhyngrwyd arnoch.
- Anfonir canllaw pellach ar sut i gwblhau a chyflwyno'ch papurau arholiad ar ôl y dyddiad cau, a chewch gyfle i ymarfer cyflwyno papurau i'n porth Blackboard.
- Caiff y papurau eu **gosod a'u marcio gan adrannau academaidd y brifysgol**, ac **nid ydynt yn dilyn cwricwlwm penodol**, er bod eu safon yn debyg i lefel A.
- **Dewis pwnc:** Sicrhewch eich bod yn dewis pynciau sy'n berthnasol i'r cynllun gradd rydych am ei astudio. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi dewis pynciau priodol. Os na fyddwch yn sefyll arholiadau mewn pynciau priodol, gallai hynny olygu na fyddwch yn gymwys i gael gwobr a/neu gynnig gostyngol. Os ydych yn dymuno newid eich pynciau, cysylltwch a ysgoloriaethau@aber.ac.uk cyn gynted a phosib.
- Mae **Hen Bapurau** ar gael ar-lein, ac rydym yn awgrymu eich bod yn eu defnyddio fel eich bod yn gyfarwydd a'r **math o gwestiynau** y gallech eu gwynebu. Gall fformat y papurau amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

## Canlyniadau a Thaliadau

- Cysylltir â phob ymgeisydd a swyddog arholiadau **4–6 wythnos** ar ôl yr arholiadau. Sylwch nad ydym yn darparu adborth na marciau.
- **Rhaid i fyfyrwyr ddarparu manylion eu banc** ar eu porth myfyrwyr (ar ôl cofrestru yn y Brifysgol) er mwyn derbyn taliadau.
- **Gwneir taliadau** ar gyfer gwobrau (Ysgoloriaeth Prifysgol neu Wobr Teilyngdod) **mewn dwy randaliad gyfartal (Rhagfyr a Mawrth)**, ar ôl cofrestru yn y Brifysgol.
- Mae rhai gwobrau'n cynnwys elfen ariannol (Ysgoloriaeth Prifysgol neu Wobr Teilyngdod), ond **nid oes gwerth ariannol i Gynnig Diamod ar ei ben ei hun.**

## Telerau, Amodau a Pholisïau

- Dylai pob ymgeisydd ddarllen y canlynol;
    - Polisi ar Ymddygiad Academaidd Da
    - Polisi ar Addasiadau Rhesymol
    - Telerau ac Amodau